



CYMDEITHAS CYFIEITHWYR CYMRU

Prawf Cyfieithu ar y Pryd 19 Tachwedd 2015 Adroddiad Cyffredinol

YR YMGEISWYR

Cafwyd 5 ymgeisydd y tro hwn, 2 yng Nghaerdydd a 3 yn y Groeslon.

Y DARNAU PRAWF

Darn 1: Araith gan Marian Wyn Jones yn 'Gwireddu'r Geiriau', Cynhadledd a Gwobrau'r Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2015 a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2015 yn Venue Cymru, Llandudno.

Darn 2: Darn o raglen BBC Cymru "Pawb a'i Farn" a ddarllledwyd o Gastell-nedd ym mis Rhagfyr 2009. Ar y panel roedd Rod Richards sy'n gyn-aelod o'r Blaid Geidwadol, Gwenda Thomas AC oedd yn Ddirprwy Weinidog Iechyd ar y pryd, Bethan Jenkins AC dros Blaid Cymru a Geraint Talfan Davies Cadeirydd y Cwmni Opera Cenedlaethol.

Roedd y ddau asesydd o'r farn bod y darnau'n rhai heriol ond teg – y cyntaf yn araith ffurfiol wedi'i thraddodi'n bwyllog, gan dynnu ar brofiad personol o'r gwasanaeth iechyd a phwysigrwydd cael gwasanaeth Cymraeg, a'r ail yn drafodaeth sy'n symud yn gyflym ac yn gofyn am wybodaeth am faterion cyfoes, gwleidyddiaeth a'r economi, gan gynnig mwy o her i'r cyfieithydd.

Y SAFON

Yn wahanol i'r hyn a welwyd yn y profion a gynhaliwyd dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf, roedd cryn amrywiaeth yn y safon rhwng yr ymgeiswyr cryfaf a'r rhai gwannaf. Llwyddodd y rhai mwyaf profiadol i roi perfformiad caboledig, cywir a chyflawn, gan ddefnyddio geirfa gyffredinol a thechnegol rhwydd a llyfn gyda chystrawennau ac ymadroddion priodol yn yr iaith darged. Llwyddwyd hefyd i ymateb yn dda i gyflymder yr ail ddarn a'r her o wahaniaethu rhwng siaradwyr.

Geirfa

Roedd geirfa gyffredinol a geirfa dechnegol yr ymgeiswyr cryfaf yn gadarn ond y gwannaf yn ymbalfalu am eiriau sylfaenol megis '*health and social care*', '*language of choice*', '*active offer*', '*forthcoming general election*', '*humility*' ac ati, er bod y geiriau hynny yn y wybodaeth a roddwyd i'r ymgeiswyr cyn y prawf. Awgryma hyn na fanteisiwyd i'r eithaf ar y chwarter awr cyn y prawf i ddarllen y wybodaeth hon yn drylwyr.

Deall, dehongli a chywirdeb

Ymhlyg yn y darnau roedd rhannau a oedd yn gofyn am sgiliau deall a dehongli da. Cafodd ambell un anhawster gyda'r darn cyntaf lle roedd Marian Wyn Jones yn rhestru enghreifftiau o sefyllfaoedd lle mae'n defnyddio'r

Gymraeg yn ei bywyd bob dydd, a hefyd yn y darn lle y soniwyd am ymweliad yr optegydd. Yn yr ail ddarn roedd Gwenda Thomas yn defnyddio ambell air nad oedd yn gywir yn y cyd-destun (e.e. 'sylweddol' yn hytrach nag 'arwyddocaol') ac roedd cyfraniadau Geraint Talfan Davies yn peri anhawster i amryw gyda rhai yn colli brawddegau cyfan. Fodd bynnag, llwyddodd y goreuon i oresgyn yr anawsterau hyn gan aralleirio'n gelfydd yn ôl yr angen a chyfleu gwybodaeth gyflawn a chywir i'r gwrandäwr.

Cystrawennu ac idiomau

Yn y cyfieithiadau gorau, cafwyd enghreifftiau o gystrawennu celfydd ac idiomau cynhenid a naturiol, e.e *confined to his bedroom, pan Wales, tarnished* (pardduo), *gradually* (o dipyn i beth), *unquestionable* (di-droi-nôl). Fodd bynnag, clywyd cyfieithu llythrennol gan rai gyda chystrawennu gwan ynghyd â'r defnydd o Saesneg anidiomatig neu idiomau amhriodol e.e. *lost the need to express himself* (yn hytrach nag *ability*), *enough to be said* (am 'digon yw dweud'), *changing the corner, democratic at its worst* (democratiaeth ar ei waethaf), *quietness was analysed* (yn lle *silence was interpreted*), *emerging* (ymylu).

Fel y crybwyllwyd mewn adroddiadau blaenorol, cystrawennu yw'r prif wendid yn aml yn y profion hyn, a dyma'n aml sy'n gwneud y gwahaniaeth rhwng cyfieithiad derbyniol a chyfieithiad da.

Arddull

At ei gilydd, cafwyd ymgais dda gan y mwyafrif i eirio'n glir ac i wahaniaethu rhwng siaradwyr, gan amrywio tôn y llais. Roedd angen i rai fireinio'r nodwedd hon ond roedd ambell un yn amrywio tôn y llais yn ormodol.

O ran stamina, llwyddodd y mwyafrif i ddal ati hyd y diwedd, er bod ambell ymgeisydd yn diffygio yng nghanol y darnau ac yn ailafael ynddi tua'r diwedd.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i annog y rhai sy'n ystyried sefyll y prawf yn y dyfodol i fanteisio i'r eithaf ar yr hyfforddiant a gynigir gan y Gymdeithas, ac yn benodol felly y sesiynau ymarfer ar gyfer y profion cyfieithu ar y pryd. Mae hyn yn rhoi cyfle i ymgeiswyr ymgynefino ag amgylchiadau'r prawf, yn ogystal â chael sylwadau cyfieithydd ar y pryd profiadol ar eu gwaith.

Y CANLYNIAD

Roedd yr aseswyr yn gytûn ar eu dyfarniad ar bedwar cais, a chyfeiriwyd un ataf fi, fel Dirprwy Arholwr, i'w benderfynu. Dyfarnwyd bod dau ymgeisydd yn llwyddo a thri yn methu.

GAIR O DDIOLCH

Fel Dirprwy Arholwr, hoffwn ddiolch i'r aseswyr am eu gwaith manwl a thrylwyr ac i staff y Gymdeithas am eu cymorth a'u harweiniad parod.